

## **Memorandwm Esboniadol i:**

- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024
- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Cadw (Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg) ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## **Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y rheoliadau uchod.

**Jane Hutt AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet Dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip**

**11 Medi 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r rheoliadau hyn yn rhan o becyn o is-ddeddfwriaeth sy'n dwyn i rym ac yn gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023'). Derbyniodd Deddf 2023 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023, mae'n ddeddf gydgrynhai ac yn ailddatgan deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac yn ymgorffori rhai cyfreithiau achosion ac arferion cysylltiedig. Mae'r rheoliadau hyn yn ailddatgan is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dynodi, diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn yr un modd â'r trosolwg yn adran 1 o Ddeddf 2023, mae'r rheoliadau o sylwedd yn datgan eu bod yn rhan o'r un cod cyfraith. Bwriad y datganiad statws hwn yw helpu pobl sydd â diddordeb yn y gyfraith ar bwnc penodol — yr amgylchedd hanesyddol yn yr achos hwn — i ddod o hyd iddi a'i dosbarthu'n haws. Mae rhagor o wybodaeth am godau cyfraith ym mharagraffau 8 i 10 o'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2023 - [Deddf Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2023 - Nodiadau Esboniadol \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Nid yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 yn rhan o'r cod.

Nid yw'r Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 (OS 2017/643) a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017 (OS 2017/644) wedi'u hailddatgan. Fe'u diwygiwyd gan Reoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 gan fod angen gwneud newidiadau cyfyngedig i'w cysoni â Deddf 2023. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth i'w gwneud yn rhan o'r cod amgylchedd hanesyddol.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae Rhannau 2 i 5 a Rhan 7 o Ddeddf 2023 yn darparu ar gyfer pwerau a dyletswyddau amrywiol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â dynodi a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

### 4. Diben ac effaith fwriedig y ddeddfwriaeth

Deddf 2023 yw'r Ddeddf gydgrynhai gyntaf yn rhaglen pum mlynedd gychwynnol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#). Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog ar gyfer

diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol unigryw yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at les Cymru a'i phobl.

Mae rhaglen hygyrchedd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cynnwys ymrwymiad i wneud yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu Deddf 2023.

Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn adlewyrchu unrhyw newid mewn polisi ac mae'n ailddatgan deddfwriaeth bresennol gyda'r nod o egluro ei defnydd a'i heffaith a hepgor darpariaethau sydd bellach wedi'u cynnwys yn Neddf 2023. Gellir gweld manylion y darpariaethau a oedd gynt mewn rheoliadau ond sydd bellach wedi'u hymgorffori yn Neddf 2023 ar dudalennau 32 i 36 o'r Tabl Trawsleoli a gyhoeddwyd gyda Deddf 2023 -

[https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/pdfs/asctod\\_20230003\\_we\\_001.pdf](https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/pdfs/asctod_20230003_we_001.pdf)  
([legislation.gov.uk](https://www.legislation.gov.uk))

Mae'r rheoliadau'n disodli deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Ni fydd y Deddfau hynny'n berthnasol i Gymru mwyach ar ôl i Ddeddf 2023 ddod i rym, ac eithrio adran 49 o Ddeddf 1990. Mae ailddatgan wedi rhoi cyfle i foderneiddio'r iaith a newid trefn rhai o'r rheoliadau.

#### *Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024*

Mae'r rheoliadau hyn yn disodli Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 (OS 2018/1087). Maent yn esemptio adeiladau rhestredig enwadau crefyddol penodedig o rai o ddarpariaethau Deddf 2023, yn benodol y gofyniad i gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer rhai mathau o waith. Mae'r enwadau hynny wedi dangos bod eu systemau mewnol o graffu a rheoli yn cyfateb yn y man lleiaf i weithdrefnau cydsyniad yr awdurdodau cynllunio.

#### *Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024;*

#### *Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024.*

Mae'r rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 (OS 2021/1177) a Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 (OS 2021/1176). Mae cytundebau partneriaeth yn gytundebau gwirfoddol rhwng perchennog heneb gofrestredig a Gweinidogion Cymru, neu rhwng perchennog adeilad rhestredig ac awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, ar gyfer rheoli un ased neu fwy yn y tymor hir. Gall cytundeb partneriaeth roi cydsyniad heneb gofrestredig neu gydsyniad adeilad rhestredig i gyflawni rhaglen waith y cytunwyd arni yn ystod oes y cytundeb.

Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ynghylch y gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar gyfer cytuno ac amrywio cytundebau.

#### *Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024*

Mae'r rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (OS 2012/793), diwygiadau dilynol iddynt a

Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017 (OS 2017/640). Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys sylwedd y Cyfarwyddiadau canlynol ac yn eu tynnu'n ôl:

- Cyfarwyddyd Ceisiadau a Phenderfyniadau Adeilad Rhestredig (Dyletswydd i Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol) (Cymru) 2022,
- Cyfarwyddyd Ceisiadau Cydsyniad Adeilad Rhestredig (Datgymhwyso Dyletswydd i Hysbysu Gweinidogion Cymru) (Cymru) (2017 Rhif 25), a
- Chyfarwyddyd Ardaloedd Cadwraeth (Datgymhwyso Gofyniad i Gael Cydsyniad Ardal Gadwraeth er mwyn Dymchwel) (Cymru) (2017 Rhif 27).

Mae Rhan 1 o'r rheoliadau yn nodi gofynion gweithdrefnol ar gyfer ceisiadau cydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys gofynion o ran hysbysu a chyhoeddusrwydd. Mae'r gofynion yn ychwanegol at y rhai yn Neddf 2023.

Mae Rhan 2 o'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn ar gyfer apeliadau mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys ynghylch rhoi hysbysiad ac amrywiad. Yn yr un modd, mae'r gofynion yn ychwanegol at y rhai yn Neddf 2023.

Mae Rhan 3 o'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer achosion arbennig, sef ceisiadau gan awdurdodau cynllunio ar gyfer dymchwel a cheisiadau mewn perthynas â thir y Goron, lle mae ffyrdd amgen o symud ymlaen.

Mae Rhan 4 o'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn seiliedig ar y darpariaethau ar gyfer adeiladau rhestredig.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth amrywiol, gan gynnwys rhagnodi'r gyfradd llog ar gyfer cost gwaith brys a wneir o dan adran 144 o Ddeddf 2023. Mae hefyd yn cyflwyno diwygiadau a diddymiadau canlyniadol.

#### *Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024*

Mae'r rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017 (OS 2017/642). Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig, gan gynnwys ffurf a chynnwys cais, y deunyddiau y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r cais a sut y mae'n rhaid ei wneud.

#### *Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024*

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth amrywiol sy'n ganlyniadol ar gychwyn Deddf 2023. Mae'r diwygiadau hyn yn diweddarau cyfeiriadau yn bennaf hen ddeddfwriaeth sydd bellach wedi'i hailddatgan yn y Ddeddf. Maent hefyd yn adlewyrchu newidiadau yn y derminoleg a ddisgrifir ym mharagraff 22 o Nodiadau'r Drafftwy'r i'r Ddeddf, sydd i'w gweld yn:

[https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/pdfs/ascod\\_20230003\\_we\\_001.pdf](https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/pdfs/ascod_20230003_we_001.pdf)

## **5. Ymgynghoriad**

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal ar y rheoliadau, gan eu bod yn adlewyrchu polisi presennol ac yn ailddatgan gweithdrefnau presennol.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn, gan fod y rheoliadau'n ailddatgan rheoliadau presennol. Nid yw'r rheoliadau'n newid y polisi na'i effaith mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.